

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Hydref 2012



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol www.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2082 1990
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: swyddfadeddfwriaeth@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2012
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)
Adroddiad Pwyllgor Cyfnod 1

Hydref 2012



Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011 gyda chylch gwaith i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion gwariant, gweinyddu a pholisi sy'n cynnwys: iechyd corfforol, meddyliol a chyhoeddus pobl Cymru, gan gynnwys y system gofal cymdeithasol.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



Mark Drakeford (Cadeirydd)

Llafur Cymru
Gorllewin Caerdydd



Mick Antoniw

Llafur Cymru
Pontypridd



Rebecca Evans

Llafur Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru



Vaughan Gething

Llafur Cymru
De Caerdydd a Phenarth



William Graham

Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Elin Jones

Plaid Cymru
Ceredigion



Darren Millar

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Lynne Neagle

Llafur Cymru
Tor-faen



Lindsay Whittle

Plaid Cymru
Dwyrain De Cymru



Kirsty Williams

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Brycheiniog a Sir Faesyfed

Cynnwys

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad.....	6
2. Cefndir	8
3. Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth	9
4. Sylwadau Penodol ar Adrannau	13
Adran 2 - Rhaglen Arolygiadau Hylendid Bwyd	13
Adrannau 3 - 4 - Sgoriau Hylendid Bwyd a Meini Prawf Sgorio	19
Adran 5 - Apelau	21
Adran 6 - Trefniadau Cyhoeddi ac Arddangos	25
Adrannau 7 - 8 - Hysbysu'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd ..	32
Adran 9 - Troseddau	38
Adrannau 10 - 12 - Mesurau diogelu ar gyfer busnesau bwyd	40
Adrannau 13 - 15 - Pwerau a Chyfrifoldebau	42
Adrannau 16 - 21 - Gorfodi	43
5. Goblygiadau Ariannol	45
6. Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a	
Deddfwriaethol	48
Atodiad A - Tystion	49
Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig.....	51

Crynodeb o'r Casgliadau a'r Argymhellion

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu canfyddiadau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol wrth iddo ystyried Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ar Gam 1.

Cytunwn ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth, y dangoswyd y ddau beth hyn yn glir ac y'u hategwyd gan dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor.

Roedd y rhan fwyaf o dystion yn croesawu'r gofyniad i arddangos sgoriau hylendid bwyd fel ffordd o sicrhau bod pawb yn arddangos sgoriau hylendid bwyd, cynyddu gwybodaeth defnyddwyr a gwella safonau hylendid bwyd.

Gwnaethom graffu ar y Bil yn ofalus iawn ac, o ganlyniad, rydym wedi gwneud nifer o argymhellion i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, a nodir isod.

Argymhelliad 1 Rydym yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno diwygiad sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r amserlenni, a nodir yn adran 5 o'r Bil, drwy reoliadau. Byddai hyn yn golygu bod mwy o hyblygrwydd pe bai angen diwygio'r amserlenni hyn yn ddiweddarach. Awgrymwn fod unrhyw bwerau o'r fath yn destun datrysiad negyddol (paragraff 84).

Argymhelliad 2 Yn ein barn ni, byddai proses apelio annibynnol yn fwy cadarn a thryloyw ac yn rhoi hyder i fusnesau a'r cyhoedd o ran annibyniaeth a natur agored y broses. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog i ystyried ymhellach sefydlu proses apelio annibynnol ac felly rydym yn argymhell bod diwygiad yn cael ei wneud i'r perwyl hwn (paragraff 86).

1. Cyflwyniad

1. Yn ei gyfarfod ar 15 Mai 2012, cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru)¹ ('y Bil') at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ('y Pwyllgor'), i ystyried yr egwyddorion cyffredinol (Cam 1), yn unol â Rheol Sefydlog 26.9. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r Pwyllgor adrodd yn ôl i'r Cynulliad erbyn 5 Hydref 2012.

2. Ar 28 Mai 2012, cyflwynodd Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ('y Gweinidog'), y Bil a Memorandwm Esboniadol a gwnaeth ddatganiad² yn y cyfarfod llawn³ drannoeth.

Cylch Craffu

3. Yn ein cyfarfod ar 30^{ain} Mai 2012, gwnaethom gytuno ar y fframwaith canlynol i graffu ar egwyddorion cyffredinol (Cam 1) y Bil, i ystyried:

- yr angen am Fil i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru;
- p'un a yw'r Bil yn cyflawni ei ddibenion;
- y darpariaethau allweddol a nodwyd yn y Bil a ph'un a ydynt yn briodol i gyflawni ei ddibenion datganedig;
- rhwystrau posibl i weithredu'r prif ddarpariaethau a p'un a yw'r Bil yn eu hystyried;
- p'un a yw'r Bil yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol;
- safbwyntiau rhanddeiliaid a fydd yn gorfod gweithio gyda'r trefniadau newydd;
- p'un a yw'r Bil yn taro cydbwysedd rhesymol rhwng pwerau'r Bil a'r pwerau sy'n deillio o Reoliadau

¹ Mae'r Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ar gael yn:
<http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-business-fourth-assembly-laid-docs/pri-ld8916-e.pdf?langoption=3&ttl=PRI-LD8916%20-%20Bil%20Sgorio%20Hylendid%20Bwyd%20%28Cymru%29>

² <http://www.assemblywales.org/cy/bus-home/bus-chamber-fourth-assembly-rop.htm?act=dis&id=234781&ds=5%2F2012#dat4>

³ Cyfarfod llawn Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Dull Gweithredu'r Pwyllgor

4. Cyhoeddodd y Pwyllgor ymgynghoriad a gwahoddwyd rhanddeiliaid allweddol i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i lywio gwaith y Pwyllgor. Ceir rhestr o'r ymatebion i'r ymgynghoriad yn Atodiad A.
5. Gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth lafar gan nifer o dystion ar y Bil. Ceir amserlen y sesiynau tystiolaeth lafar yn Atodiad B.
6. Hefyd, cynhaliodd Tîm Allgymorth y Cynulliad gyfweiliadau â'r cyhoedd a busnesau y gallai'r Bil arfaethedig effeithio arnynt yn Eisteddfod yr Urdd yng Nghaernarfon a Gŵyl Ryngwladol Llangollen⁴. Mae'r adroddiad canlynol yn cyflwyno casgliadau ac argymhellion y Pwyllgor yn seiliedig ar y dystiolaeth a gafwyd yn ystod ei waith.
7. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a wnaeth gyfrannu.

⁴ FHR24, Ymatebion Cyfweiliad Eisteddfod yr Urdd a Llangollen

2. Cefndir

Cymhwysedd Deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol i lunio'r Bil

8. Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru y cymhwysedd deddfwriaethol i wneud y darpariaethau ym Mil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) drwy rinwedd adran 7, pwnc 8 (Bwyd) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Memorandwm Esboniadol

9. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol sy'n ategu'r Bil:

"Mae Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru"⁵.

10. Eglura'r Memorandwm Esboniadol:

"Mae'r Bil yn creu gofyniad statudol ar awdurdodau bwyd i weithredu cynllun sgorio hylendid bwyd ac yn rhoi dyletswydd ar fusnesau bwyd i arddangos eu sgôr hylendid bwyd yn eu sefydliadau"⁶.

11. Noda'r Memorandwm Esboniadol:

"Bwriad y Bil yw sicrhau bod defnyddwyr yn cael yr wybodaeth am safonau hylendid bwyd busnesau bwyd yng Nghymru. Bydd hyn yn galluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau mwy cytbwys ynghylch ble i fwyta neu siopa am fwyd"⁷.

⁵ Memorandwm Esboniadol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), paragraff 1

⁶ ibid

⁷ ibid

3. Egwyddorion Cyffredinol a'r Angen am Ddeddfwriaeth

Cefndir

12. Mae Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) yn gweithredu cynigion Llywodraeth Cymru i gyflwyno cynllun sgorio hylendid bwyd statudol yng Nghymru.

Tystiolaeth gan Dystion

13. Roedd y rhan fwyaf o dystion yn cytuno ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth i'w gwneud yn ofynnol i'r busnesau bwyd hynny yng Nghymru, sydd o fewn cwmpas y Bil, arddangos gwybodaeth am sgoriau hylendid bwyd yn eu sefydliadau ac, ar gais, hysbysu defnyddwyr am y sgôr hylendid bwyd ar lafar.

14. Wrth gefnogi'r angen am ddeddfwriaeth, dywedodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wrthym:

“There is general agreement, certainly from us and from equivalent agencies in countries and regions that have operated similar schemes, that the publication of food hygiene ratings is a very effective public health measure. That has been shown by evaluations in Denmark, the US and other places”⁸.

15. Ychwanegwyd ganddynt:

“We know that only a low proportions of businesses choose to display them voluntarily in Wales under the current scheme; it is only about a third and only two thirds of those businesses with the highest rating of 5 and only 6% of those businesses with ratings 0, 1 and 2, about which you might presume that consumers have the greatest need or right to know. So, our view is that legislation is required in order to deliver universal display, and it is universal display that leads to consumer protection”⁹.

16. Roedd sawl tyst arall o'r un farn yn cynnwys Llais Defnyddwyr Cymru, Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru, Cymdeithas

⁸ CyT, paragraff 24, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁹ CyT, paragraff 25, 12 Gorffennaf 2012 (am)

Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Brechdanau Prydain, y Gymdeithas Pizza, Pasta a Bwyd Eidalaidd a'r Gymdeithas Caffi¹⁰.

17. Roedd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru hefyd yn cefnogi'r farn hon a dywedodd wrthym fod gwendidau yn y cynllun gwirfoddol presennol yn golygu bod angen cynllun gorfodol.

Dywedwyd:

“For those people scoring 4 and 5, there is some evidence that the rating is displayed, but certainly for those scoring 0 to 3, there is not that evidence, and they are the people we are concerned with. We would like the public to be cognisant of the rating and to take a view on whether they want to go there. The fact that the system is not working, in my view, is why we need the mandatory scheme”¹¹.

18. Rhoddodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fwy o dystiolaeth i ni a oedd yn cefnogi'r angen am gynllun gorfodol gan amlinellu'r canlynol:

“There is sufficient evidence now from countries such as Canada, America and Denmark that not only has the hygiene standard risen considerably with the introduction of mandatory schemes, but rates of hospitalisation for food-borne illnesses has decreased quite dramatically in some areas. This could not be accounted for just by people voting with their feet, by not going somewhere with a bad rating; it had to mean that a substantial number of premises raised the standard of their food hygiene. So, we would support this”¹².

19. Dangosodd cyfweiliadau a gynhaliwyd yn Eisteddfod yr Urdd a Gŵyl Ryngwladol Llangollen gan Dîm Allgymorth y Cynulliad gyda'r cyhoedd a busnesau y gallai'r Bil effeithio arnynt fod y rhan fwyaf o gyfweleion o blaid deddfwriaeth. Roedd y rhan fwyaf o gyfweleion yn cytuno ei bod yn syniad da ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos eu sgoriau hylendid bwyd¹³.

20. Fodd bynnag, nid oedd pob tyst o blaid deddfwriaeth. Yn eu plith roedd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru a ddywedodd:

¹⁰ FHR4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹ CyT, paragraff 117, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

¹² CyT, paragraff 119, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

¹³ FHR24, Ymatebion Cyfweiliad Eisteddfod yr Urdd a Llangollen

“We have yet to be convinced that there is a problem with the voluntary scheme other than what you are saying, namely that people are choosing not to display ratings of 0, 1, 2 or 3 on their doors. However, that may change once public awareness increases”¹⁴.

21. Yn yr un modd, roedd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain hefyd yn gwrthwynebu'r Bil gan nodi:

“We are against making the display mandatory, and we believe that, at a time when there is very little money available to businesses, it is the role of Governments, wherever they are in the UK, to reduce the burdens on business. We do not believe that this mandatory display of rating for food hygiene will either improve food hygiene in Wales or, indeed, make it easier for business”¹⁵.

22. Rhannwyd y farn hon gan Gymdeithas Lletygarwch Prydain¹⁶ a Chymdeithas y Siopau Cyfleustra¹⁷.

23. Yn yr un modd, roedd Consortiwm Manwerthu Cymru yn gwrthwynebu'r Bil a nododd:

“We believe the creation of a statutory scheme is disproportionate in regulatory terms and would only be justified if there was clear evidence of its role in reducing food borne illness”¹⁸.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

24. Nododd y Gweinidog mai bwriad y Bil yw ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd arddangos gwybodaeth am eu cydymffurfiaeth o ran hylendid bwyd. Wrth egluro, o dan y cynllun gwirfoddol presennol, mai'r busnesau hynny a oedd wedi cael 4 neu 5 oedd yn dueddol o arddangos eu sgoriau dywedodd:

“That is really the weakness of the voluntary scheme: it is the lack of lower-numbered stickers being displayed. The scheme will force businesses to display their stickers and will then give

¹⁴ CyT, paragraff 37, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

¹⁵ CyT, paragraff 262, 18 Gorffennaf 2012

¹⁶ CyT, paragraff 264, 18 Gorffennaf 2012

¹⁷ FHR10, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁸ FHR14, Tystiolaeth Ysgrifenedig

consumers the information that I think that they need in order to make informed choices about where they eat or buy their food. I think that is a very effective way of improving food hygiene standards”¹⁹.

Ein Barn Ni

25. Nodwn fod y rhan fwyaf o dystion yn cefnogi egwyddor y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth. Cytunwn â'r farn bod angen deddfwriaeth er mwyn sicrhau bod sgoriau hylendid bwyd yn cael eu harddangos gan bob busnes sy'n rhan o gwmpas y Bil. Rydym yn cydnabod, o dan y cynllun gwirfoddol, nad yw llawer o fusnesau sy'n cael sgôr isel yn arddangos eu sgoriau. Credwn y bydd gwneud y cynllun yn orfodol yn sicrhau bod cymaint o wybodaeth â phosibl ar gael i ddefnyddwyr.

26. Felly, ar ôl ystyried y safbwyntiau hyn, cytunwn ag egwyddorion cyffredinol y Bil a'r angen am ddeddfwriaeth.

27. Nodir ein safbwyntiau ar rai o adrannau penodol y Bil yn adran 4.

¹⁹ CyT, paragraff 123, 20 Mehefin 2012

4. Sylwadau Penodol ar Adrannau

Adran 2 - Rhaglen Arolygiadau Hylendid Bwyd

Cefndir

28. Mae Adran 2 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd yng Nghymru (awdurdodau lleol ac awdurdodau porthladdoedd) lunio rhaglenni arolygu sefydliadau busnes bwyd yn eu hardaloedd er mwyn asesu safonau hylendid y sefydliadau hynny.

29. Rhoddir ystyr "sefydliad busnes bwyd", "gweithredwr" ac "awdurdod bwyd" at ddiben y Bil yn adran 2(5). Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, ddiwygio'r diffiniadau o "sefydliad busnes bwyd" ac "awdurdod bwyd".

Tystiolaeth gan Dystion

Cysondeb

30. Cododd rhai dystion bryderon y gallai'r cynllun sgorio hylendid bwyd gael ei weithredu'n anghyson, naill ai rhwng awdurdodau lleol a/neu o fewn awdurdod lleol.

31. Wrth sôn am y mater hwn, dywedodd Dean Bolton, aelod o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru:

“...it is not just about the relationship between different local authorities, but within the same local authority, you get different inspectors who have a different take on how they inspect, even though they have the same regime to follow. It can be very frustrating when you have just done an expensive piece of work and you find that it was not needed, because it was not explained in the right way”²⁰.

32. Mynegwyd safbwyntiau tebyg gan Gymdeithas Brechdanau Prydain, y Gymdeithas Pizza, Pasta a Bwyd Eidalaid a'r Gymdeithas Caffi²¹, a nododd:

“There are also differences of opinion between inspectors on the interpretation of regulations and also on different aspects of practices operating in food businesses”²².

²⁰ CyT, paragraff 108, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

²¹ FHR4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

33. I'r gwrthwyneb, dywedodd cynrychiolydd o Gyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru wrthym fod nifer o weithdrefnau eisoes ar waith i sicrhau bod y cynllun presennol yn cael ei roi ar waith mewn ffordd gyson. Dywedwyd wrthym:

“The Wales heads of environmental health group has a food safety technical panel and work is also going on with a food hygiene rating group. We work closely with the FSA, which has developed guidance to help with consistency and to ensure, as best we can, that there are consistent approaches in Wales”²³.

34. Cawsom hefyd dystiolaeth gan y Swyddfa Rheoliadau Gwell yn amlinellu ei rôl wrth fynd i'r afael ag anghysondebau:

“It gives businesses the right to form a statutory partnership with one local authority, which then provides robust and reliable advice for other councils to take into account when carrying out inspections or dealing with non-compliance. The Primary Authority scheme therefore offers assurance of consistency for businesses that trade across local authority boundaries, including for the purposes of inspections leading to award of ratings”²⁴.

35. O ran cysondeb, gwnaethom holi tystion perthnasol am y gweithdrefnau a fyddai ar waith i roi hyder i ddefnyddwyr bod y system sgorio yn cael ei defnyddio mewn ffordd gyson. Er enghraifft, a allai sgôr o 5 mewn un awdurdod gael ei hystyried yr un peth â sgôr o 5 mewn un arall.

36. Wrth ymateb, dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru wrthym:

“The Bill, as it stands, addresses that issue in that it requires the FSA to provide support and to review and monitor the consistent delivery of the scheme and requires local authorities to review how they undertake their delivery and implementation of the scheme”²⁵.

²² FHR 4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

²³ CyT, paragraff 182, 12 Gorffennaf 2012 (am)

²⁴ FHR16, Tystiolaeth Ysgrifenedig

²⁵ CyT, paragraff 187, 12 Gorffennaf 2012 (am)

Cwmpas

37. Gwnaethom geisio barn ar gwmpas y Bil ac, yn benodol, y diffiniad o "sefydliad busnes bwyd", "gweithredwr" ac "awdurdod bwyd" at ddiben y Bil fel y nodir yn adran 2(5).

38. Dywedodd rhai tystion, gan gynnwys Cynghrais Twristiaeth Cymru, fod angen nodi eithriadau i'r Bil cyn gynted â phosibl²⁶ o ystyried na chânt eu cynnwys yn y Bil.

39. Hefyd, cododd tystion bryderon am gynnwys sefydliadau busnes i fusnes o fewn cwmpas y Bil. Awgrymodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y byddai hyn yn gosod baich rheoliadol newydd ar fusnesau yng Nghymru, a fyddai wedyn yn arwain at gostau uwch a allai wneud busnesau yng Nghymru yn llai cystadleuol²⁷.

40. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig nododd:

"It is important to recognise that many businesses in Wales will be supplied from companies operating across the UK and the EU that will not fall under the remit of the legislation. This could impede the Welsh Government's stated objectives with regard to food hygiene, whilst placing Wales based wholesalers at a competitive disadvantage"²⁸.

41. I'r gwrthwyneb, roedd tystion eraill o blaid cynnwys masnach busnes i fusnes o fewn cwmpas y Bil. Nododd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili:

"We are pleased that the Bill addresses the inclusion of business to business trade premises as we feel that it is important that these businesses are included in the scheme so that those responsible for procurement of foods via contracts have knowledge of the hygiene ratings of these establishments"²⁹.

42. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru o blaid cynnwys masnach busnes i fusnes o fewn cwmpas y Bil. Dywedwyd:

²⁶ FHR3, Tystiolaeth Ysgrifenedig

²⁷ CyT, paragraffau 68 a 69, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

²⁸ FHR19, Tystiolaeth Ysgrifenedig

²⁹ FHR8, Tystiolaeth Ysgrifenedig

“We feel, in environmental health, that that is an important addition to the Bill. We think that it is important that the public can be sure that the same kind of standards and approach apply and that the people who are providing food in those circumstances can demonstrate that they are purchasing from the right sources, and, if they want to find out what those sources are, they can do so. This strengthens the information available to the public, but, importantly, it strengthens the ability of other providers, if you like, to find out for themselves the information that they need to make their purchasing decisions”³⁰.

43. Wrth gasglu tystiolaeth, gwnaethom geisio barn ar ehangder cwmpas y Bil. Roedd y rhan fwyaf o'r tystion a holwyd o'r farn y byddai busnes cofrestredig at ddiben y Bil yn cael ei ddiffinio fel un ag elfen o barhad a threfniadaeth ac a fyddai felly yn ddarostyngedig i ddeddfwriaeth hylendid bwyd.

44. Wrth sôn am gwmpas y Bil, dywedodd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru wrthym:

“We are keen to ensure that only businesses that are true businesses fall within this scheme. Therefore, if you have someone who, on odd occasions, bakes a cake for a church fete, a school cake sale or whatever in domestic premises, they should not be caught by this”³¹.

45. Ychwanegwyd ganddynt:

“With regard to a business or charity doing something that is regular, if we are talking about the WRVS producing meals on wheels or a church that does a pensioners lunch once a week as part of its business and conduct, yes, it should be caught by the scheme. However, if we are talking about a church hall that, on the odd occasion, puts some sandwiches together say for a funeral service, and the event is random and involves different individuals, that is not a business in the sense that we

³⁰ CyT, paragraff 224, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

³¹ CyT, paragraff 218, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

are looking at consistent and on-going food provision, so it should not be caught”³².

46. Wrth i ni ystyried y Bil, tynnwyd ein sylw at rai ystyriaethau ymarferol o ran y ffordd y gallai'r Bil fod yn gymwys i fathau penodol o sefydliadau bwyd sy'n dod o fewn cwmpas y Bil. Yn benodol, roedd a wnelo'r pryderon hyn â'r defnydd o gyfleusterau cymunedol, megis canolfannau cymunedol, a all gael eu defnyddio gan grwpiau amrywiol i baratoi a gweini bwyd³³. Er enghraifft, ai'r safle a/neu'r arlwywr sy'n cael ei sgorio, sut y byddai pob grŵp yn cael ei sgorio a sut y byddai'r sgôr honno yn cael ei harddangos?

Tystiolaeth gan y Gweinidog

Cysondeb

47. Mewn tystiolaeth lafar, tanlinellodd y Gweinidog y byddai darpariaethau yn y Bil a'r canllawiau a gyhoeddwyd yn helpu i sicrhau cysondeb a thegwch³⁴. Cawsom wybod y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn monitro ac yn archwilio'r broses o weithredu'r cynllun a disgwylir iddi sicrhau cysondeb a thegwch³⁵. Cawsom sicrwydd y cynhelir gwerthusiadau bob tair blynedd i alluogi'r Asiantaeth Safonau Bwyd i adrodd yn ôl i Weinidogion Cymru.

48. Ychwanegodd y Gweinidog fod cyd-grŵp llywio hefyd yn bodoli sy'n cynnwys awdurdodau lleol i sicrhau cysondeb.

Cwmpas

49. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod yn fwriad cyhoeddi ac ymgynghori ar reoliadau drafft i'w gwneud o dan Fil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) ar ddiwedd Cam 2 hynt y Bil (Tachwedd 2012), a fydd yn cynnwys manylion am eithriadau³⁶.

50. Hefyd, tanlinellodd y Gweinidog, wrth ymgynghori ar y Bil drafft, iddynt holi a ddylai unrhyw sefydliadau bwyd sy'n darparu bwyd yn uniongyrchol i ddefnyddwyr gael eu heithrio o'r cynllun. Ychwanegodd, er bod angen rhywfaint o hyblygrwydd, lle mae achos da dros eithrio rhai busnesau bwyd, fod disgwyliad mai prin fyddai

³² CyT, paragraff 221, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

³³ *ibid*, paragraff 88

³⁴ CyT, paragraff 238, 20 Mehefin 2012

³⁵ CyT, paragraff 239, 20 Mehefin 2012

³⁶ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

unrhyw eithriadau. Dywedodd wrthym ei bod yn fwriad eithrio rhai sefydliadau risg isel megis sefydliadau sensitif³⁷.

51. Mewn tystiolaeth lafar, eglurodd swyddog y Gweinidog y byddai busnesau cofrestredig yn cael eu heithrio mewn rhai achosion:

“...exemptions would apply for registered businesses—predominantly child minders, probably. Again, this is a question of degree. A child minder registered as a food business, predominantly because the child minder would provide food for children in their care, would not be required to display a sticker, because they are potentially identifiable as vulnerable people. They would not be required to display a sticker, they would not be identified under the scheme and they would not appear on the Food Standards Agency website”³⁸.

52. Ychwanegodd y Gweinidog:

“The other exemptions would be sensitive establishments, such as those related to the armed forces. They would not be required to display a sticker. They would still be awarded a rating for local display, but they would not have to be on the FSA website, for security reasons”³⁹.

53. Hefyd, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai rhai sefydliadau risg isel hefyd yn cael eu heithrio o'r cynllun. Nododd:

“Low-risk establishments would be places like leisure centres, where you only have food in vending machines, or newsagents, where you have pre-packed sweets and chocolates. Those would be the low-risk establishments”⁴⁰.

54. O ran pryderon ynghylch rhoi'r cynllun ar waith, megis defnyddio cyfleusterau cymunedol, eglurodd y Gweinidog mai'r busnes bwyd cofrestredig a fyddai'n ddarostyngedig i'r cynllun ac nid y safle⁴¹. At hynny, os mai dim ond bwydydd 'risg isel', e.e. te/coffi a bisgedi, oedd

³⁷ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

³⁸ CyT, paragraff 139, 20 Mehefin 2012

³⁹ CyT, paragraff 140, 20 Mehefin 2012

⁴⁰ CyT, paragraff 152, 20 Mehefin 2012

⁴¹ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

yn cael eu darparu fel rhan berifferol o weithgareddau busnes, ni fyddai'n cael ei sgorio⁴².

Ein Barn Ni

55. Rydym wedi ystyried safbwyntiau tystion mewn perthynas â rhan 2 o'r Bil a nodwn y pryderon y gallai'r Bil gael ei roi ar waith mewn ffordd anghyson gan wahanol awdurdodau lleol neu o fewn awdurdodau lleol.

56. Ar ôl ystyried cryfder y dystiolaeth a gafwyd gan sefydliadau â chyfrifoldeb am roi'r Bil ar waith mewn ffordd ymarferol, rydym yn fodlon bod digon o fesurau diogelu yn eu lle i sicrhau cysondeb.

57. Fodd bynnag, er ein bod yn fodlon bod y fath fesurau diogelu yn ddigonol mewn theori, rydym o'r farn bod angen i'r rhain gael eu gweithredu'n drylwyr er mwyn tawelu meddyliau a magu hyder o ran cysondeb y ffordd y rhoddir y cynllun sgorio hylendid bwyd ar waith.

58. Rydym hefyd yn fodlon ar ystyr "sefydliad busnes bwyd", "gweithredwr" ac "awdurdod bwyd" at ddiben y Bil fel y nodir yn adran 2(5). Rydym yn fodlon ar y darpariaethau a nodir yn adran 2(6)(a) a (b), sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru ddiwygio'r diffiniad o sefydliad busnes bwyd ac awdurdod bwyd drwy reoliadau.

Adrannau 3 - 4 - Sgoriau Hylendid Bwyd a Meini Prawf Sgorio

Cefndir

59. Rhydd Adran 3 y weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei dilyn ar ôl arolygu sefydliad busnes bwyd. Mae Adran 4 yn amlinellu'r ffaith bod yn rhaid i'r meini prawf sgorio bennu sgôr ar gyfer y sefydliad busnes bwyd, nid yn unig o ran ei safonau hylendid ond hefyd ei arferion trin bwyd, yr amgylchedd ffisegol, ei reolaeth a'i weithdrefnau cadw trefn.

Tystiolaeth gan Dystion

60. Tynnodd rhai tystion sylw at bwysigrwydd sicrhau bod y cyhoedd yn deall y cynllun sgorio hylendid bwyd yn llawn. Awgrymodd Cymdeithas Brechdanau Prydain, y Gymdeithas Pizza, Pasta a Bwyd Eidalaid a'r Gymdeithas Caffi fod yn rhaid gweithredu o ran y canlynol:

⁴² Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

“to promote the scheme to the public so that they fully understand the rating system as there is a serious danger that it may otherwise be confused with other star rating schemes”⁴³.

61. Codwyd pryderon tebyg gan Gymdeithas y Siopau Cyfleustra a nododd:

“...the Welsh Government and Local Authorities should work together to create and provide materials to educate the public as to the meaning of the ratings”⁴⁴.

62. Mewn ymateb i bryderon ynghylch dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun eglurodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd rywfaint o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd. Dywedodd wrthym fod sawl ymgyrch gyhoedduswydd wedi cael ei chynnal cyn cyflwyno'r cynllun gwirfoddol i helpu i baratoi busnesau a'u helpu i gael sgoriau uwch⁴⁵.

63. Cawsom wybod hefyd fod yr Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cynnal dwy ymgyrch yn flaenorol i hyrwyddo'r cynllun i ddefnyddwyr yng Nghymru. Awgrymodd tystiolaeth a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd fod yr ymgyrchoedd hyn wedi bod yn llwyddiannus, hynny yw roedd 48% o ymatebwyr mewn arolwg o ddefnyddwyr yng Nghymru a gynhaliwyd ar ôl ymgyrch gyhoedduswydd yn 2012 yn ymwybodol o'r cynllun, o gymharu â 36% yn dilyn ymgyrch gyhoedduswydd yn 2011⁴⁶.

64. Roedd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gwbl gefnogol i'r dyletswyddau statudol newydd a osodwyd arni yn y Bil, sy'n cynnwys hyrwyddo'r cynllun statudol a chynorthwyo awdurdodau lleol. Wrth gyfeirio at y dyletswyddau hyn nododd:

“The FSA notes that these duties would underpin our continuing work in this area, and welcome them”⁴⁷.

65. Dangosodd tystiolaeth a gasglwyd gan Dîm Allgymorth y Cynulliad fod ymwybyddiaeth gyffredinol ymhlith y cyhoedd o'r cynllun sgorio hylendid bwyd, gyda'r rhan fwyaf o ymatebwyr yn cydnabod bod sgôr isel yn anfoddhaol a bod sgôr uchel yn dda. Dynododd nifer

⁴³ FHR4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁴⁴ FHR10, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁴⁵ FHR18, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁴⁶ ibid

⁴⁷ CyT, paragraff 82, 12 Gorffennaf 2012 (am)

o ymatebwyr y byddai'r sgôr yn dylanwadu ar eu penderfyniad i fwyta bwyd o sefydliad ai peidio⁴⁸.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

66. O ran sicrhau bod y cyhoedd yn deall y cynllun, nododd y Gweinidog y byddai dyletswydd yn cael ei gosod ar yr Asiantaeth Safonau Bwyd i sicrhau bod y cyhoedd yn deall y sgoriau⁴⁹.

Ein Barn Ni

67. Ar y cyfan, rydym yn fodlon ar adrannau 3 a 4 o'r Bil. Fodd bynnag, nodwn fod pryderon ynghylch dealltwriaeth y cyhoedd o'r meini prawf ar gyfer sgorio hylendid bwyd a chydabyddwn y bydd oedi rhwng addysgu'r cyhoedd a hyrwyddo dealltwriaeth o'r cynllun. Felly, cytunwn y bydd angen egluro sgoriau hylendid bwyd yn well.

68. O ran y mater hwn, rydym wedi ystyried tystiolaeth a gafwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a fydd yn gyfrifol am hyrwyddo dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r cynllun. Fe'n sicrhawyd bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gwbl fodlon ar y rôl hon ac yn cefnogi'r dyletswyddau statudol newydd a osodir arni. Rydym yn fodlon y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflawni'r dyletswyddau hyn yn effeithiol.

69. At hynny, o ystyried y dystiolaeth a gasglwyd gan Dîm Allgymorth y Cynulliad, rydym yn sicr bod y cyhoedd eisoes yn deall y cynllun gwirfoddol ac yn ymwybodol o'r hyn y mae'r sgoriau yn ei olygu. Credwn fod hyn yn sail gadarn i ddyletswyddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd.

Adran 5 - Apelau

Cefndir

70. Mae Adran 5 yn manylu ar hawl gweithredwr bwyd i apelio i'r awdurdod bwyd yn erbyn sgôr hylendid bwyd a roddwyd i'r sefydliad.

Tystiolaeth gan Dystion

71. Cododd rhai dystion bryderon bod yr amserlen ar gyfer apelau, fel y nodir yn y Bil, yn rhy hir ac y byddai'n peri oedi diangen cyn y gallai defnyddwyr weld sgoriau.

⁴⁸ FHR 24, Ymatebion Cyfweiliad Eisteddfod yr Urdd a Llangollen

⁴⁹ CyT, paragraff 172, 20 Mehefin 2012

72. Cododd Llais Defnyddwyr Cymru y pryderon canlynol:

“...potentially, as a result of an appeal, a new rating would not actually be displayed on the premises following an inspection for a period of 56 days. For that period of 56 days, the consumer is not getting the accurate rating”⁵⁰.

73. Awgrymodd rhai tystion y dylai'r broses apelio fod yn annibynnol ac, yn ddelfrydol, y dylai gael ei chynnal gan awdurdod lleol gwahanol i'r un a gynhaliodd yr arolygiad cychwynnol.

74. Nododd tystiolaeth gan Gyngor Sir Penfro:

“The appeals process might be strengthened, and seen as being more robust, if appeals were considered by an external assessor. This role might be performed by nominated officers in other local authorities, or by the Food Standards Agency. As the majority of appeals are dealt with as a desk top exercise, supplemented by discussions with inspecting officers, this should not be impracticable (having regard to the number of appeals anticipated). This should help promote consistency in the application of scores across and not just within LA's”⁵¹.

75. Cafodd yr angen am broses apelio annibynnol ei gefnogi hefyd gan gynrychiolwyr o'r sector busnes. Cyfeiriodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru at bwysigrwydd proses apelio annibynnol i gynnal cydberthynas dda rhwng busnesau a'r awdurdod lleol. Dywedodd:

“...it is not beyond the realms of possibility for there to be serious problems in the nature of the relationship between an inspector and someone who is being inspected. So, there must be good governance and a good arm's-length principle at work here, because business and employment opportunities are at stake if those goes wrong”⁵².

76. Fodd bynnag, roedd peth ansicrwydd ynghylch effaith prosesau apelio annibynnol ar awdurdodau lleol. Nododd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

⁵⁰ CyT, paragraff 115, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁵¹ FHR11, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁵² CyT, paragraff 105, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

“...it would depend very much on neighbouring local authorities’ resourcing and the availability of staff to be able to cope with that. We do not yet know the number of appeals likely to come forward. However, as an idea I would not oppose it”⁵³.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

77. Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch amserlenni, nododd y Gweinidog mai bwriad yr amserlenni oedd sicrhau eu bod yn ymarferol i bawb dan sylw. Eglurodd:

“It should be emphasised that the time-scales in the Bill are maximums, and the concerns expressed related to the very worst case scenarios. It will often be the case that ratings are displaying at a food business establishment and on the FSA website earlier than those maximum time-scales specified in the Bill”⁵⁴.

78. Rhoddodd y Gweinidog dystiolaeth hefyd i ategu'r penderfyniad i ehangu'r amserlen apelau i fusnesau bwyd ac awdurdodau bwyd i 21 diwrnod. Eglurodd fod ymatebion busnesau bwyd i'r ymgynghoriad yn dynodi nad oedd y cyfnod o 14 diwrnod i apelio yn ddigon hir o ystyried faint o amser roedd yn ei gymryd i ddwyn ynghyd dystiolaeth i gyflwyno apêl. Nid oedd yn caniatáu ar gyfer gwyliau nac absenoldeb staff allweddol. Ychwanegodd fod ymatebion awdurdodau bwyd yn dynodi bod y cyfnod o saith diwrnod i ystyried a phenderfynu ar apelau hefyd yn rhy fyr⁵⁵.

79. Mewn ymateb i'r pryderon a godwyd ynghylch annibyniaeth y broses apelio, dywedodd y Gweinidog wrthym, er mwyn sicrhau lefel o ddiueddrwydd, fod y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i swyddog awdurdodedig nad oedd a wnelo ag asesu'r sgôr hylendid bwyd y cyflwynwyd apêl yn ei chylch benderfynu ar yr apêl. At hynny, ni ddylai'r Swyddog arolygu ystyried yr apêl ar unrhyw gyfrif⁵⁶.

⁵³ CyT, paragraff 222, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁵⁴ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

⁵⁵ *ibid*

⁵⁶ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

80. Nododd y Gweinidog hefyd:

“Requiring an Officer who was not involved in the original food hygiene assessment to determine the appeal will assist food authorities in their duty to review the operation of the food hygiene rating scheme in their areas. It will help them to ensure that the rating criteria are assessed fairly and consistently within their own authority”⁵⁷.

81. Wrth ddod i gasgliad ar y mater hwn, dywedodd y Gweinidog i ddechrau nad oedd wedi'i darbwyllo bod angen i apelau gael eu hystyried gan awdurdod bwyd annibynnol a nododd:

“To impose such a requirement would place an additional administrative burden on both the food authority providing the rating and that determining the appeal”⁵⁸.

82. Mewn tystiolaeth bellach, dywedodd y Gweinidog wrthym, ar ôl ystyried y pryderon a godwyd gan dystion ynghylch annibyniaeth y broses apelio, ei bod am ailystyried y mater er mwyn sicrhau tegwch i fusnesau. Dywedodd:

“...first, we need to look initially to the food authority retaining its own appeals and then look at neighbouring authorities and the issue of a regional panel. I will certainly report at the end of Stage 1”⁵⁹.

Ein Barn Ni

83. Rydym wedi ystyried safbwyntiau tystion ynghylch yr amserlenni a nodir yn adran 5 o'r Bil ac nid ydym o'r farn y byddai ehangu'r amserlenni o unrhyw fudd ar hyn o bryd. Rydym yn fodlon bod yr amserlenni presennol yn briodol ac yn ymarferol i bawb dan sylw.

84. Rydym yn argymhell bod ystyriaeth yn cael ei rhoi i gyflwyno diwygiad sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i ddiwygio'r amserlenni, a nodir yn adran 5 o'r Bil, drwy reoliadau. Byddai hyn yn golygu bod mwy o hyblygrwydd os bydd angen diwygio'r amserlenni hyn yn ddiweddarach. Awgrymwn fod unrhyw bwerau o'r fath yn destun datrysiaid negyddol.

⁵⁷ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

⁵⁸ *ibid*

⁵⁹ CyT, paragraff 20, 27 Medi 2012

85. O ran a ddylai'r broses apelio gael ei chynnal yn annibynnol, a hynny gan awdurdod lleol gwahanol i'r un a gynhaliodd yr arolygiad cychwynnol, rydym o'r un farn â thystion y dylai apelau o'r fath gael eu cynnal yn annibynnol, drwy gyfeirio at awdurdod lleol arall.

86. Rydym o'r farn y byddai proses apelio annibynnol yn fwy cadarn a thryloyw ac yn rhoi hyder i fusnesau a'r cyhoedd o ran annibyniaeth a natur agored y broses. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog i ystyried ymhellach sefydlu proses apelio annibynnol ac felly rydym yn argymhell bod diwygiad yn cael ei wneud i'r perwyl hwn.

Adran 6 - Trefniadau Cyhoeddi ac Arddangos

Cefndir

87. Mae a wnelo adran 6 â hysbysu am a chyhoeddi sgoriau hylendid bwyd ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac amlinella'r weithdrefn y mae'n rhaid i awdurdod bwyd ei dilyn wrth hysbysu'r Asiantaeth Safonau Bwyd am sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd yn dilyn yr arolygiad.

Tystiolaeth gan Dystion

88. Cododd rhai dystion bryderon am y potensial am fwy o amser pan nad arddangosir sgôr gan sefydliadau busnes bwyd ac felly na roddir unrhyw wybodaeth i'r defnyddiwr. Wrth gyfeirio at yr amserlenni a nodir yn adran 6 o'r Bil, dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru wrthym:

“This means in practise that for any standard food hygiene inspection, the rating of that inspection is not required to be published on the FSA’s Food Hygiene Ratings Scheme website for 91 days (approx 3 months) from the date of inspection (where there is no appeal from the food business operator)”⁶⁰.

89. Ychwanegodd:

“...if a food business operator appeals, not only will the rating not be displayed at the premises for up to 56 days but the corresponding rating will not be visible to consumers for up to 112 days (approx. 4 months)”⁶¹.

⁶⁰ FHR17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁶¹ *ibid*

90. Daeth i'r casgliad canlynol:

“We are extremely concerned about these potential delays to publications of the food hygiene rating on the FSA’s food hygiene rating scheme website have been allowed on the face of the Bill. Whilst we appreciate these are maximum periods, we do not consider these to be appropriate, given both food operators and the FSA should be working to make ratings available to consumers at the earliest opportunity”⁶².

91. Awgrymodd rhai tystion, er mwyn hysbysu'r defnyddiwr ymhellach, y dylai adroddiadau arolygu llawn gael eu cyhoeddi ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ac y byddai hyn hefyd yn gwella dealltwriaeth gyffredinol o'r cynllun sgorio hylendid bwyd. Fodd bynnag, cyflwynwyd dadleuon o blaid ac yn erbyn yr ymarfer hwn i'r Pwyllgor.

92. Wrth gefnogi cyhoeddi adroddiadau arolygu dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

“A rating is great as a snapshot for a large number of consumers, but if people want to find out the reasons behind a rating, it is currently extremely difficult to do that – you have to make a freedom of information request to your local authority for a copy of the full food hygiene inspection report. We did that as an exercise to find out how easy it would be, and it was incredibly difficult, varying between local authorities and between individual reports”⁶³.

93. At hynny, awgrymodd:

“It is confusing for consumers at the moment, to some extent, partly because there is still a lot to do around awareness and education about what the rating means, because there are three elements to the rating: food hygiene, the structure of the premises and the food safety management system”⁶⁴.

⁶² FHR17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁶³ CyT, paragraff 60, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁶⁴ CyT, paragraff 61, 12 Gorffennaf 2012 (am)

94. Ategwyd y ddadl ymhellach drwy honni:

“There have been incidences where, for example, schools have received poor ratings - a 1 or 2 - and parents have wanted to know the reasons behind those ratings. It is incredibly difficult to provide those at the moment. By making further information available to people, you provide an impetus to encourage those premises to improve and you enable people to make more informed decisions - particularly when they have a choice, but also when they do not have a choice - and to be able to campaign for improvement, particularly in the instance of schools”⁶⁵.

95. Wrth ddod i gasgliad dywedodd:

“We have asked consumers across Wales about this, and 92% of people told us that they thought that they should be able to access the information more easily; 85% of people thought that that information should be available on the FSA’s website”⁶⁶.

96. Roedd cynrychiolwyr o'r sector busnes hefyd o blaid cyhoeddi adroddiadau arolygu llawn. Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru:

“If you are going to publicise the ratings that the establishments are getting - I will not say ‘name and shame’ - it is only fair and equitable to publish what the authority is saying about these establishments”⁶⁷.

97. At hynny, nid oedd Cymdeithas y Siopau Cyfleustra⁶⁸ na Which?⁶⁹ yn gwrthwynebu'r syniad o ddarparu adroddiadau arolygu yn eu cyfarwydd.

98. Awgrymodd y tystion hynny a oedd yn erbyn cyhoeddi adroddiadau arolygu y gallai cyhoeddi'r fath adroddiadau osod baich ar awdurdodau lleol.

99. Dywedodd un o gynrychiolwyr Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru:

⁶⁵ CyT, paragraff 62, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁶⁶ CyT, paragraff 63, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁶⁷ CyT, paragraff 111, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

⁶⁸ FHR10, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁶⁹ FHR12, Tystiolaeth Ysgrifenedig

“I do not support the forced publication of reports or a requirement for local authorities to do that merely because of the burden; it would be a significant burden on local authorities to do that”⁷⁰.

100. Roedd Cyngor Sir Penfro hefyd o'r un farn⁷¹.

101. Dywedodd Cyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru wrthym hefyd fod baich gweinyddol adroddiadau yn deillio o'r lefel o wybodaeth bersonol a gynhwyswyd, er enghraifft, cyfeiriadau at unigolion a enwyd o ran eu hyfforddiant a gwybodaeth⁷². At hynny, gallai fod yn feichus i awdurdodau lleol orfod golygu'r fath wybodaeth bersonol cyn cyhoeddi adroddiadau a'r gofyniad posibl am gyfieithiad Cymraeg o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993⁷³.

102. Mewn ymateb i'r honiadau hyn, dywedodd Llais Defnyddwyr Cymru:

“...there has been some pushback from local authorities on this issues in terms of the fact that it may be additionally burdensome and could be quite difficult because, currently, inspection reports are not produced in a template or a format that is consistent across Wales. However, that is not a reason not to do this; in fact, it is more of a reason to do this, because, from the information that we have, there is incredible variation in how inspection reports are written and how they are presented. If we created this obligation, there would be the added benefit of greater consistency in inspection report completion across Wales. That would provide greater benefits in terms of monitoring for the FSA and for other agencies, and we would be able to compare authorities more easily. So, we would certainly call for more information to be available”⁷⁴.

103. Cefnogwyd y dadleuon hyn gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd a nododd:

“We should note that there are just a handful of local authorities across the UK – none in Wales – that currently

⁷⁰ CyT, paragraff 168, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁷¹ FHR11, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁷² CyT, paragraff 169, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁷³ *ibid*

⁷⁴ CyT, paragraff 63, 12 Gorffennaf 2012 (am)

publish inspection reports. Norwich City Council is the one that I would propose as an exemplar. It publishes the rating from 0 – 5, an indication of what parts of the various scores were most important in reaching that composite view, and then the inspection report in what find to be accessible language”⁷⁵.

104. Gwnaethom gysylltu â Chyngor Dinas Norwich i geisio barn ar ei brofiad o gyhoeddi adroddiadau arolygu. Mewn gohebiaeth a ddaeth i law, dywedodd swyddogion o'r Cyngor:

“Norwich City Council has been publishing its inspection reports online since October 2005 without major incident or complaint. We have effectively assimilated the publication of reports into our existing procedures”⁷⁶.

105. O ran goblygiadau cyhoeddi'r fath adroddiadau yn nhermau adnoddau dywedodd Swyddogion Cyngor Dinas Norwich wrthym:

“Although time must be spent pdf'ing documents, naming them correctly and filing them electronically in the right place (where the report we run for our website can pick up the link) the process, at least from the officer's perspective, is not burdensome. I suspect that is also the case for our web team.

From the outset we designed our reports and procedures with the eventual publication of the report in mind. For instance, our aim is to create an inspection document that does not need redacting. Personal information is kept to the covering letter (which is not published) and care is taken not to identify individuals in the published report. We peer review inspection reports which hopefully ensures errors, of which there are some, are picked up”⁷⁷.

106. Rhannwyd barn debyg gan Gyngor Lichfield, sy'n rhan o gonsortiw m o awdurdodau lleol sy'n rhannu gwefan o'r enw www.ratemyplace.org.uk, sy'n cyhoeddi adroddiadau arolygu ochr yn ochr â sgoriau hylendid bwyd y cynghorau sy'n cymryd rhan. Dywedodd swyddogion wrthym:

⁷⁵ CyT, paragraff 65, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁷⁶ HSC (4)-24-12, (papur i nodi) 27 Medi 2012

⁷⁷ *ibid*

“We have been publishing food hygiene inspection reports since 2007. Publishing couldn't be easier. We remove confidential information such as names and then secure the document using Adobe Writer. We include this task as part of the overall inspection process and essentially on average it takes 5 minutes to do. Publishing our reports has been positive in a number of ways:

- it allows the public to rightly see what we do and ask questions of our work
- it has changed the way we write letters to our customers. No longer do we quote legislation or make our sentences long and verbose, we try to come straight to the point e.g. clean the wall or paint the ceiling. Customers like this and officers find it easier to do.
- press coverage (both positive & negative) has led to an increased interest in food safety and has driven up standards without the need for regulation in some instances”⁷⁸.

107. O ran y goblygiadau ariannol, roedd Swyddogion Cyngor Lichfield hefyd yn gallu cadarnhau:

“In terms of costs, if you take the running of ratemyplace it costs each partner council about £600 per year. This includes hosting, training, website development and website management”⁷⁹.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

108. Cododd y Gweinidog bryderon y byddai ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau bwyd gyhoeddi adroddiadau arolygu yn cael effaith sylweddol ac yn faich mawr⁸⁰. Tynnodd sylw at y canlynol: byddai'n ofynnol i awdurdodau bwyd ddileu unrhyw wybodaeth bersonol o'r adroddiad cyn ei gyhoeddi er mwyn cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data; byddai'r costau cyfieithu'n sylweddol a gaiff effaith ariannol ar awdurdodau lleol a byddai'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn wynebu

⁷⁸ HSC (4)-24-12, (papur i nodi) 27 Medi 2012

⁷⁹ *ibid*

⁸⁰ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

costau datblygu ychwanegol os byddai'n ofynnol iddi gyhoeddi 30,000 a mwy o adroddiadau arolygu dwyieithog ar ei gwefan⁸¹.

109. Dywedodd y Gweinidog wrthym hefyd mai'r brif athroniaeth oedd yn sail i ddatblygu'r cynllun sgorio hylendid bwyd oedd rhoi gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn fformat hawdd ei ddeall a gaiff cyn lleied o effaith â phosibl ar allu awdurdodau lleol i gyflawni eu cyfrifoldebau statudol. Eglurodd nad nawr oedd yr amser i osod beichiau ychwanegol ar awdurdodau lleol, yn enwedig pan nad oedd buddiannau rhoi'r fath wybodaeth i ddefnyddwyr yn ddigon clir⁸².

110. Nododd y Gweinidog i ddechrau y byddai'n well ganddi ystyried ffyrdd amgen o roi gwybodaeth gan awdurdodau lleol yng Nghymru mewn ffordd gyson i ryddhau adroddiadau arolygu. Byddai hyn yn digwydd ar ffurf ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a thrwy ddatblygu diffiniad manylach ar gyfer pob un o'r sgoriau hylendid i ddefnyddwyr a fyddai'n hoffi cael mwy o wybodaeth. Ychwanegodd y dylid caniatáu amser i'r gofyniad i arddangos sgoriau hylendid gael effaith ac y dylai'r mater hwn gael ei ystyried unwaith eto pan gaiff y cynllun gorfodol ei werthuso am y tro cyntaf mewn tair blynedd⁸³.

111. Ar ôl ailystyried y mater, dywedodd y Gweinidog wrthym:

“...rather than people having to go down the freedom of information route to get that information, the report should be available on request”⁸⁴.

112. Ychwanegodd:

“...I do not think that many members of the public or businesses want a full report – they want a summary”⁸⁵.

Ein Barn Ni

113. Ar ôl ystyried y dystiolaeth a'r dadleuon o blaid ac yn erbyn cyhoeddi adroddiadau arolygu, credwn y byddai'n fuddiol cyhoeddi adroddiadau arolygu.

⁸¹ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

⁸² *ibid*

⁸³ *ibid*

⁸⁴ CyT, paragraff 44, 27 Medi 2012

⁸⁵ *ibid*

114. O ystyried mai diben y Bil yw hysbysu'r defnyddiwr, credwn y byddai cyhoeddi adroddiadau arolygu llawn yn helpu i gyflawni hyn ymhellach. Yn ogystal â helpu i feithrin dealltwriaeth y cyhoedd o'r cynllun sgorio hylendid bwyd, credwn y byddai cyhoeddi adroddiadau arolygu hefyd yn hyrwyddo tegwch, cysondeb a thryloywder o ran adroddiadau. Er enghraifft, gallai busnesau a'r cyhoedd edrych i weld a oedd cysondeb o ran adroddiadau, a ddylai helpu i sicrhau bod mwy o gysondeb dros amser.

115. Gwnaethom hefyd ystyried enghreifftiau gan awdurdodau lleol eraill, lle aed i'r arfer o gyhoeddi adroddiadau arolygu ar-lein. Gwelwyd bod y wybodaeth a roddwyd ar wefannau o'r fath yn glir ac yn addysgiadol i'r defnyddiwr. Rydym hefyd wedi nodi'r dystiolaeth gan yr awdurdodau lleol hynny na fu'r gwaith o gyhoeddi adroddiadau arolygu'n feichus a bod iddo sawl mantais i'r cyhoedd a'r awdurdod lleol.

116. Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth, rydym yn cefnogi'r egwyddor y dylai pob adroddiad arolygu gael ei gyhoeddi ar naill ai wefan yr awdurdod lleol perthnasol neu wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Er ein bod yn croesawu awgrym y Gweinidog y gallai adroddiadau arolygu fod ar gael ar gais, credwn y gall hyn beri rhwystr arall i'r cyhoedd o ran cael gafael ar y wybodaeth. Hoffem weld adroddiadau yn cael eu cyhoeddi fel mater o drefn er mwyn galluogi ac annog mwy o bobl i'w gweld.

117. Rydym yn cydnabod nad yw Safonau o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ar waith eto ac nid yw'n sicr i ba raddau y daw adroddiadau arolygu o dan y gofynion. Rydym hefyd o'r farn y dylai adroddiadau arolygu gael eu cyhoeddi i ddechrau yn yr iaith y'u hysgrifennwyd, h.y. Cymraeg neu Saesneg. Gellid cyfieithu'r fath adroddiadau ar gais er mwyn lleihau'r costau cysylltiedig. Fodd bynnag, yn yr hirdymor hoffem weld adroddiadau cryno dwyieithog yn cael eu cyhoeddi ar y gwefannau perthnasol.

Adrannau 7 - 8 - Hysbysu'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd

Cefndir

118. Mae a wnelo adrannau 7 ac 8 â hysbysu'r cyhoedd am sgoriau hylendid bwyd. Bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i fusnesau bwyd yng Nghymru arddangos gwybodaeth am eu safonau hylendid mewn man lle y gall defnyddwyr ei gweld yn hawdd. Noda adran 8 yn

benodol fod yn rhaid i weithredwyr bwyd hysbysu defnyddwyr am sgôr hylendid bwyd y sefydliad ar lafar pan ofynnir iddynt wneud hynny.

Tystiolaeth gan Dystion

119. Tynnodd llawer o dystion sylw at y ffaith nad yw'r Bil, fel y'i drafftwyd, yn cynnwys gofyniad i gynnwys sgoriau yn neunydd hysbysebu a hyrwyddo busnes neu ar ei wefan. Fodd bynnag, roedd cefnogaeth eang i gynnwys sgoriau mewn deunydd o'r fath.

120. Nododd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y byddai, petai'r cynllun yn cael ei gyflwyno:

“...the FSB would welcome the fact that, wherever you purchase or consume foods, you are made aware of the standards of those premises”⁸⁶.

121. Roedd Llais Defnyddwyr Cymru o'r farn y dylai'r Bil gynnwys gofyniad i fusnesau bwyd nodi eu sgoriau hylendid bwyd mewn deunydd cyhoeddusrwydd priodol⁸⁷. Dywedodd:

“Whilst we appreciate that business may be concerned about the cost of having ratings on printed material that may go out of date, every effort should be made by the business or premises to make their rating available through any publicity or communication material. Placing a requirement on a food business to make a rating available on their website should be achievable given that this can easily be changed following a change in rating”⁸⁸.

122. Fodd bynnag, roedd rhai dystion yn ansicr ynghylch cynnwys sgoriau hylendid bwyd mewn deunydd hyrwyddo. Cododd Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru bryderon ynghylch cynnwys gwybodaeth ar daflenni, o ystyried eu byrhoedledd neu ar fwydlenni cludfwyd, er enghraifft, y mae pobl yn dueddol o'u cadw am flynyddoedd lawer. Dywedodd:

“Our concern with displaying the rating on those is that you would have to put a date on them to show that, for example, as

⁸⁶ CyT, paragraff 94, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

⁸⁷ FHR17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁸⁸ *ibid*

of 10 June 2012, the rating was 4. That will remain true even if the rating changes”⁸⁹.

123. Ychwanegodd:

“The Chartered Institute will certainly support the display of food hygiene ratings on premises and on websites – stuff that can be readily changed. However, our concern is that a small business might buy 5,000 fliers tomorrow and find that, next Friday they are out of date. That does not help the business, because it then has material that is out of date, and it then has to decide either to continue to use it or withdraw it, which is a burden on the business. That does not help the consumer, because it is giving the wrong information”⁹⁰.

124. Daeth i'r casgliad canlynol:

“...we do not want to see the public being misled – accidentally or by design – as a result of printed material that has been generated in quantity and that a business feels inclined to use”⁹¹.

125. Wrth gasglu tystiolaeth, gwnaethom holi tystion am ble y dylai busnesau sy'n gwerthu bwyd mewn lleoliadau/digwyddiadau gwahanol arddangos eu sticeri sgôr. Ystyriwyd enghraifft marchnadoedd ffermwyr a ph'un a ddylai fod yn ofynnol arddangos sticeri ar stondin marchnad neu ar y safle cofrestredig neu'r ddau.

126. Nododd yr Asiantaeth Safonau Bwyd mai arddangos sticer yn y man gwerthu a fyddai'n briodol yn ôl pob tebyg⁹². Cefnogwyd hyn gan Llais Defnyddwyr Cymru a ddywedodd:

“...it is about providing detailed guidance for businesses as a consequence of this Bill on how they should be making that information available to consumers in different circumstances. It will be really important as part of that guidance to provide specific examples such as farmers' markets. Certainly it should be available on the stall”⁹³.

⁸⁹ CyT, paragraff 145, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

⁹⁰ CyT, paragraff 152, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

⁹¹ CyT, paragraff 160, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

⁹² CyT, paragraff 102, 12 Gorffennaf 2012 (am)

⁹³ CyT, paragraff 104, 12 Gorffennaf 2012 (am)

127. Roedd tystion hefyd o blaid y syniad y dylid darparu sticeri ychwanegol lle, er enghraifft, y mae gan sefydliadau busnes bwyd sawl mynedfa neu unedau symudol⁹⁴.

128. O ran adran 8 o'r Bil, cododd llawer o dystion bryderon y byddai'n anodd monitro'r gofyniad i hysbysu defnyddwyr ar lafar am sgôr hylendid bwyd sefydliad busnes bwyd.

129. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig, gofynnodd Cyngrair Twristiaeth Cymru:

“Will this mean the owner of the establishment will become liable for the behaviour of an employee, whether though malicious intent; ignorance or simply because they are busy”⁹⁵.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

130. O ran cynnwys sgoriau hylendid bwyd yn neunydd hyrwyddo busnes, dywedodd y Gweinidog:

“...the decision not to compel businesses to put their ratings on the menus was because of the cost involved in reprinting menus. If the rating changed, the business would have to re-do their menus, so that was the reason for that”⁹⁶.

131. Rhoddodd swyddog y Gweinidog eglurhad pellach:

“...the reason we recommended against publication in promotional material was twofold: first, as the Minister says, there is a cost of changing promotional material if the rating changed, which is potentially several thousands of pounds”⁹⁷.

132. At hynny, ychwanegodd:

“...given that people could be using the same promotional material over a period of, potentially, several years, our view was that such a requirement could promote confusion”⁹⁸.

133. Tynnodd y Gweinidog sylw at broblemau posibl o ran cynnwys sgoriau ar fwydlenni cludfwyd, yn enwedig gyda stamp dyddiad a

⁹⁴ FHR17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁹⁵ FHR3, Tystiolaeth Ysgrifenedig

⁹⁶ CyT, 20 Mehefin 2012, paragraff 197

⁹⁷ CyT, 20 Mehefin 2012, paragraff 203

⁹⁸ ibid

dyddiad dod i ben. Dywedodd wrthym y byddai hyn yn feichus ar fusnesau ac y gallai hefyd danseilio deddfwriaeth hylendid bwyd Ewropeaidd sy'n ei gwneud yn ofynnol i arolygiadau hylendid bwyd gael eu cynnal yn ddirybudd⁹⁹.

134. Nododd y Gweinidog ymhellach:

“I am not convinced that imposing an additional requirement to publish food hygiene ratings on promotional material and/or business websites will lead to significant benefits to the consumer. Customers can simply ask when ordering a takeaway what food hygiene rating a food business has been awarded or if ordering or collecting their food at the premises can view the hygiene rating there. They can also view the rating of the business on the FSA website”¹⁰⁰.

135. Wrth ddod i gasgliad ynghylch y mater hwn dywedodd y Gweinidog:

“To impose such a requirement may well be seen as giving rise to additional burdens on food businesses in Wales. I do not wish to overcomplicate the Bill and on balance I am not yet persuaded to include such a provision”¹⁰¹.

136. Wrth ei chwestiynu ymhellach, cadarnhaodd y Gweinidog ei bod wedi ystyried arddangos sgoriau hylendid bwyd ar wefannau sefydliadau busnes bwyd, ac er ei bod yn cydnabod y byddai problemau os mai trydydd parti oedd yn gyfrifol am gynnal gwefan, roedd o'r farn:

“...it would probably be more practical to require food businesses to place a statement on their website regarding their food hygiene rating and then redirect consumers via an automatic hyperlink to the FSA website where the individual business rating can be viewed”¹⁰².

⁹⁹ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

¹⁰⁰ *ibid*

¹⁰¹ *ibid*

¹⁰² CyT, paragraff 22, 27 Medi 2012

Ein Barn Ni

137. Ar ôl ystyried barn tystion yn ofalus, o ran p'un a ddylai sgoriau hylendid bwyd gael eu cynnwys yn neunydd hyrwyddo busnesau bwyd, rydym wedi dod i'r casgliad na fyddai'n briodol ei gwneud yn ofyniad statudol i'r fath wybodaeth gael ei chynnwys mewn deunydd ar hyn o bryd, yn enwedig gan nad oes unrhyw beth yn atal busnesau rhag gwneud hyn o'u gwirfodd ar hyn o bryd.

138. Nodwn a rhannwn hefyd y pryderon a godwyd gan dystion y gallai cynnwys sgoriau hylendid bwyd mewn deunydd hyrwyddo beri dryswch gan fod y fath ddeunydd mewn perygl o fynd yn hen.

139. Fodd bynnag, nodwn y dystiolaeth gan dystion yn awgrymu mai cost fechan iawn, os o gwbl, y dylid ei chodi ar fusnesau i gynnwys manylion eu sgoriau hylendid bwyd ar eu gwefannau. Rydym hefyd yn cydnabod pa mor hawdd y gall gwefannau gael eu diweddarau gyda gwybodaeth gywir. Yn yr un modd, credwn y gallai busnesau yn hawdd gynnwys gwybodaeth yn eu deunydd hyrwyddo yn cyfeirio defnyddwyr at wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, lle byddai manylion eu sgôr hylendid bwyd ddiweddaraf ar gael. Ni ddylai cynnwys y fath wybodaeth arwain at unrhyw anghywirdeb na baich ychwanegol ar fusnesau gan na fyddai angen i'r wybodaeth hon gael ei diweddarau'n rheolaidd.

140. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog y byddai'n ystyried p'un a ddylai fod yn ofynnol i sefydliadau busnes bwyd roi datganiad ar eu gwefan ynghylch eu sgoriau hylendid bwyd. Er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn gallu cael y wybodaeth ddiweddaraf am sefydliad, dynododd y gallai fod yn ofynnol i'r fath ddatganiadau gynnwys hyperddolen yn cyfeirio defnyddwyr at y dudalen berthnasol ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd. Rydym yn cefnogi hyn.

141. Yn olaf, er mwyn hysbysu'r defnyddiwr ymhellach, rydym o'r un farn â'r tystion hynny a awgrymodd y dylid ei gwneud yn ofynnol i fusnesau sy'n gwerthu bwyd mewn lleoliadau a/neu ddigwyddiadau gwahanol, arddangos eu sticeri sgoriau hylendid bwyd yn y man gwerthu/lleoliad a/neu ar eu safleoedd cofrestredig. Gall y fath fusnesau gynnwys y rheini sy'n gwerthu bwyd mewn marchnadoedd ffermwyr neu gwmnïau arlwygo symudol. Nodwn fod y Gweinidog hefyd yn cytuno â hyn.

Adran 9 – Troseddau

Cefndir

142. Mae adran 9 yn nodi sut y bydd gweithredwyr sefydliad busnes bwyd yn cyflawni trosedd o dan y ddeddfwriaeth.

Tystiolaeth gan Dystion

143. Cafwyd cefnogaeth eang i'r gofyniad i hysbysu defnyddwyr am sgôr hylendid sefydliadau ar lafar. Fodd bynnag, cododd sawl tyst bryderon ynghylch sut y byddai methiant i gydymffurfio â chais gan unigolyn i gael gwybod sgôr hylendid bwyd ar lafar yn cael ei fonitro a'i orfodi.

144. Nododd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain:

“It is not clear how this would be enforced, and it also has the potential to be anecdotal and therefore difficult to prove. It could put operators at risk of vexatious or fictitious claims against them which they would equally find difficult to defend”¹⁰³.

145. Awgrymodd tystiolaeth gan gynrychiolwyr llywodraeth leol, a fyddai'n gyfrifol am orfodi, y byddai'r gwaith o fonitro troseddau yn dibynnu ar y cyhoedd yn rhoi gwybod i'r awdurdod bwyd perthnasol er y byddai rhywfaint o waith yn cael ei wneud gan arolygwyr i blismona cydymffurfiaeth â'r cynllun¹⁰⁴.

146. Wrth gyfeirio at fonitro cydymffurfiaeth â'r cynllun, dywedodd un o gynrychiolwyr Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wrthym:

“...it is very easy for an officer to pick up the phone and ask. There is nothing more straightforward than that. The evidence is then with the officer, who can record it and put it in whatever format it needs to be in to be taken forward in a legal way. I do not think that that is a difficulty. Initially, we would have to react to consumer complaints first. I do not imagine that environmental health officers would often be lined up on the phones, looking to phone up takeaway businesses, but reacting

¹⁰³ FHR13, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹⁰⁴ CyT, paragraff 107, 12 Gorffennaf 2012 (am)

to complaints initially, and then verifying that information personally, would be the right way to go”¹⁰⁵.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

147. Cadarnhaodd y Gweinidog mai awdurdodau lleol fyddai'n gyfrifol am fonitro troseddau, o ran y gofyniad i roi sgôr hylendid bwyd ar lafar ar gais. Dywedodd:

“We would be reliant on people informing the food authorities, if, having rung up and asked for a verbal confirmation on the food hygiene rating, they did not get it”¹⁰⁶.

148. Mewn ymateb i bryderon ynghylch anawsterau ym maes gorfodi, yn enwedig o ran honiadau tralodus neu anonest, dywedodd Swyddog a oedd yn bresennol gyda'r Gweinidog wrthym:

“With regard to enforcement action, many authorities conduct blind trials, including ringing up anonymously and asking the question themselves”¹⁰⁷.

149. O ran troseddau, eglurodd y Gweinidog fod y Bil yn nodi y caiff trosedd ei chyflawni gan weithredwr os bydd, heb esgus rhesymol, yn methu â chydymffurfio â chais gan unigolyn i gael gwybod sgôr hylendid bwyd sefydliad ar lafar. Ychwanegodd mai bwriad hyn yw galluogi defnyddwyr â nam ar eu golwg neu sy'n ffonio i holi i gael gwybod sgôr busnes bwyd cyn ei ddefnyddio. Mae a wnelo'r drosedd ag amgylchiadau lle bydd gweithredwr naill ai'n celu'r sgôr neu'n rhoi sgôr anghywir.

150. Cadarnhaodd y Gweinidog ei bod o'r farn bod y Bil yn gwneud hyn yn ddigon clir oherwydd oni chaiff y sgôr gywir ei rhoi, ni chydymffurfir â'r cais¹⁰⁸. Eglurodd y Gweinidog:

“Currently food authorities engage with food businesses to remind them that displaying an invalid rating in publicity material may constitute an offence under trading standards

¹⁰⁵ CyT, paragraff 198, 12 Gorffennaf 2012 (am)

¹⁰⁶ CyT, paragraff 208, 20 Mehefin 2012

¹⁰⁷ CyT, paragraff 228, 20 Mehefin 2012

¹⁰⁸ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

legislation, for example an offence under the Consumer Protection from Unfair Trading Regulations 2008¹⁰⁹.

151. Ar ôl trafod y mater hwn ymhellach, cytunodd y Gweinidog i ystyried awgrym y Pwyllgor y byddai mân ddiwygiad drafftio yn egluro, heb unrhyw amheuaeth, fod rhoi sgôr anghywir ar lafar yn drosedd¹¹⁰.

Ein Barn Ni

152. Rydym wedi ystyried tystiolaeth y Gweinidog o ran Adran 9 o'r Bil ac yn fodlon y bydd awdurdodau lleol sydd â phrofiad blaenorol o gymryd camau gorfodi mewn perthynas â diogelu defnyddwyr ac ymddygiad gwrthgymdeithasol er enghraifft yn gallu 'plismona' i raddau digonol y troseddau a gaiff eu creu gan y Bil.

153. Er gwaethaf tystiolaeth y Gweinidog y byddai adran 9 (1) (e) yn cynnwys y gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd hynny sy'n rhoi sgôr anghywir, credwn, gan fod yn rhaid i droseddau gael eu llunio â sicrwydd, y dylai'r Bil ar ei ffurf bresennol gyfeirio'n benodol at y drosedd o roi sgôr anghywir ar lafar mewn ymateb i gais o dan adran 8, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth. Gellid gwneud cymhariaeth ag adran 9 (1) (b) sy'n creu'r drosedd benodol o arddangos sticer annyls, er bod adran 9 (1) (a) yn ei gwneud hi'n drosedd methu ag arddangos sticer sgôr hylendid bwyd dilys yn y lleoliad ac yn y modd a ragnodir.

154. Croesawn ymrwymiad y Gweinidog i ystyried ymhellach ddiwygio drafft adran 9 o'r Bil er mwyn cyfeirio at y drosedd benodol o roi sgôr hylendid anghywir mewn ymateb i gais ar lafar.

Adrannau 10 - 12 - Mesurau diogelu ar gyfer busnesau bwyd

Cefndir

155. Mae adran 10 yn galluogi gweithredwr sefydliad busnes bwyd i roi sylwadaeth ar sgôr hylendid bwyd y sefydliad. Mae adran 11 yn nodi y caiff gweithredwr sefydliad busnes bwyd ofyn i awdurdod bwyd gynnal arolygiad pellach o safonau hylendid bwyd y sefydliad er mwyn ystyried a ddylid newid ei sgôr hylendid bwyd. Rhydd adran 12 y weithdrefn ar gyfer talu am yr arolygiad ailsgorio.

¹⁰⁹ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

¹¹⁰ CyT, paragraffau 9 - 15, 27 Medi 2012

Tystiolaeth gan Dystion

156. Cyfeiriodd rhai tystion, er enghraifft Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili¹¹¹ a Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy¹¹², at yr angen am gysondeb o ran costau ailsgorio i fusnesau. Dywedwyd wrthym fod pryderon y gallai awdurdodau lleol godi taliadau gwahanol ac y gallai rhai defnyddio hyn i roi hwb i'w coffrau¹¹³. Awgrymodd rhai tystion, fel ffordd o atal anghysondeb, y dylid codi tâl safonol rhagnodedig¹¹⁴.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

157. O ran sicrhau cysondeb wrth gyfrifo 'costau rhesymol' gan awdurdodau bwyd mewn perthynas ag arolygiadau ailsgorio, dywedodd y Gweinidog wrthym ei bod yn bwriadu rhoi canllawiau i awdurdodau bwyd ar sut i arfer y swyddogaethau hyn o dan y Bil. Bydd hyn yn cynnwys canllawiau ar gyfrifo costau rhesymol ar gyfer arolygiadau ailsgorio. Bydd y canllawiau hefyd yn annog awdurdodau bwyd mewn ardaloedd gwledig i reoli eu rhaglenni arolygu mewn ffordd sy'n ystyried arolygiadau ailsgorio ac yn sicrhau nad yw costau arolygu yn anghymesur o uchel o gymharu â'r rheini mewn ardaloedd trefol¹¹⁵.

158. Hefyd, wrth roi tystiolaeth lafar, tynnodd Swyddog y Gweinidog sylw at y ffaith y byddai'n anodd cyflwyno tâl sefydlog am arolygiadau ailsgorio gan y byddai hyn yn golygu bod busnes annibynnol yn talu'r un faint ag archfarchnad neu safle gweithgynhyrchu¹¹⁶. Ychwanegodd na fyddai arolygiad ailsgorio o reidrwydd yn golygu bod angen cynnal arolygiad llawn o safle ac y gallent fod yn hir neu'n fyr. Cadarnhaodd hefyd mai'r farn oedd y dylai'r taliadau adlewyrchu'r gwaith gwirioneddol¹¹⁷.

159. Wrth egluro'r pwynt hwn ymhellach nododd:

“...we have asked the Food Standards Agency to look at this and it is also an issue that the food safety technical panel of the Directors of Public Protection Wales will look at. So, we are satisfied not only that there is a mechanism to charge what it is

¹¹¹ FHR8, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹² FHR9, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹³ FHR4, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹⁴ FHR8, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹¹⁵ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

¹¹⁶ CyT, paragraff 249, 20 Mehefin 2012

¹¹⁷ *ibid*

actually going to cost the local authorities, but that there is a degree of consistency and a way of monitoring that consistency right from day one"¹¹⁸.

Ein Barn Ni

160. Rydym wedi ystyried tystiolaeth gan dystion o ran adrannau 10 - 12 o'r Bil a derbyniwn y sicrwydd a roddwyd gan y Gweinidog bod mesurau ar waith i sicrhau tegwch a chysondeb o ran y taliadau am arolygiadau ailsgorio.

Adrannau 13 - 15 - Pwerau a Chyfrifoldebau

Cefndir

161. Rhydd adran 13 ddyletswyddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd o ran y Cynllun Sgorio Hylendid Bwyd. Mae adran 14 yn amlinellu pwerau a chyfrifoldebau eraill awdurdodau bwyd megis anfon gwybodaeth am y cynllun at weithredwyr sefydliadau busnes bwyd newydd. Mae a wnelo adran 15 â chyfrifoldebau eraill gweithredwyr sefydliadau busnes bwyd, megis rhoi gwybodaeth.

Tystiolaeth gan Dystion

162. Wrth roi tystiolaeth, cododd Llais Defnyddwyr Cymru bwysigrwydd monitro a gwerthuso'r cynllun er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddiannus ac awgrymodd sut y gellir gwneud hyn. Awgrymodd hapwirio p'un a oedd sgoriau yn cael eu harddangos a ph'un a oedd sgoriau yn cael eu rhoi ar lafar ar gais, ymgysylltu â defnyddwyr yn rheolaidd a rhoi camau ar waith i gofnodi lleihad yn nifer yr achosion o salwch a achosir gan fwyd¹¹⁹.

163. Dywedodd Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru y dylai dyletswyddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd fynd y tu hwnt i hyrwyddo'r cynllun i amlygu arfer da i fusnesau er mwyn eu rhoi mewn sefyllfa well i gyflawni sgoriau boddhaol.

¹¹⁸ CyT, paragraff 249, 20 Mehefin 2012

¹¹⁹ FHR17, Tystiolaeth Ysgrifenedig

Tystiolaeth gan y Gweinidog

164. Dywedodd y Gweinidog y byddai hyrwyddo ac addysgu defnyddwyr am y Cynllun yn rhan bwysig o ddyletswyddau'r Asiantaeth Safonau Bwyd¹²⁰.

Ein Barn Ni

165. Roeddem yn fodlon ar yr adrannau hyn a'r dystiolaeth a gafwyd.

Adrannau 16 - 21 - Gorfodi

Cefndir

166. Mae adrannau 16 - 18 yn ymwneud â phŵer mynediad, troseddau gan gyrrff corfforaethol, cosbau a hysbysiadau cosb benodedig.

167. Mae a wnelo adrannau 20 - 21 â chosbau sy'n gymwys i weithredwyr sy'n euog o gyflawni trosedd o dan y Bil (Deddf) a'r defnydd o dderbyniadau cosb benodedig.

Tystiolaeth gan Dystion

168. Roedd dystion yn fodlon ar y darpariaethau ar gyfer pŵer mynediad yn y Bil. Clywsom dystiolaeth gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd Cymru yn cefnogi'r angen am bwerau o'r fath gan fod angen pŵer mynediad cydredol ochr yn ochr â phwerau mynediad presennol o dan ddeddfwriaeth hylendid bwyd bresennol¹²¹.

169. Awgrymodd rhai dystion, megis Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, y gellid defnyddio'r arian a godwyd drwy dderbyniadau cosb benodedig i godi ymwybyddiaeth ymhlith busnesau bach o arfer da¹²². Roedd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain a Chymdeithas Lletygarwch Prydain¹²³ o'r un farn¹²⁴.

170. Cododd Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain bryderon ynghylch lefel y dirwyon cosb benodedig. O ran y dirwyon ar lefel 3 a gynigir ar gyfer troseddau a amlinellir yn adran 9 o'r Bil, nododd:

“We are opposed to fines for minor mis-demeanours like non-display of signs. However, they should be at level 1; a level 3

¹²⁰ CyT, paragraff 170, 20 Mehefin 2012

¹²¹ CyT, paragraff 213, 12 Gorffennaf 2012 (pm)

¹²² FHR19, Tystiolaeth Ysgrifenedig

¹²³ CyT, paragraff 303, 18 Gorffennaf 2012

¹²⁴ CyT, paragraff 305, 18 Gorffennaf 2012

fine seems excessive. We believe that a level 1 fine - £200 – would be better and less of a burden on businesses”¹²⁵.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

171. Eglurodd y Gweinidog nad oedd disgwyl nifer sylweddol o dderbyniadau o hysbysiadau cosb benodedig gan y bydd y rhan fwyaf o fusnesau bwyd yn cydymffurfio â'r gofyniad i arddangos eu sticer sgôr hylendid. Ychwanegodd fod ystyriaeth wedi cael ei rhoi i ble y dylid cyfeirio derbyniadau cosb benodedig ac mai'r penderfyniad oedd y byddai'r cynnig yn y Bil, i'r rhain gael eu dychwelyd at Weinidogion Cymru, yn rhoi'r cyfle iddynt gael eu defnyddio i ariannu gwaith ar ddiogelwch bwyd yn y dyfodol¹²⁶.

172. Daeth y Gweinidog i'r casgliad:

“I am specifically against the retention by local authorities of monies raised from fixed penalty notices to avoid any suggestion that the use of these penalties is a hidden revenue-raising exercise”¹²⁷.

Ein Barn Ni

173. Roeddem yn fodlon ar yr adrannau hyn a'r dystiolaeth a gafwyd.

¹²⁵ CyT, paragraff 314, 18 Gorffennaf 2012

¹²⁶ Llythyr oddi wrth Lesley Griffiths AC, y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, 8 Awst 2012

¹²⁷ *ibid*

5. Goblygiadau Ariannol

Cefndir

174. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai costau'n gysylltiedig â chyflwyno cynllun gorfodol a'r canlynol fyddai'n gyfrifol amdanynt:

- (a) awdurdodau lleol;
- (b) gweithredwyr busnesau bwyd;
- (c) yr Asiantaeth Safonau Bwyd;
- (ch) Llywodraeth Cymru¹²⁸.

175. Bydd y Bil hefyd yn darparu ar gyfer adennill costau ar gyfer arolygiadau ailsgorio hylendid bwyd, a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i godi tâl ar fusnesau bwyd am adennill costau lle maent yn gofyn am ailymweliad¹²⁹.

176. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol sy'n ategu'r Bil¹³⁰ y prif oblygiadau o ran costau i Lywodraeth Cymru fydd darparu cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru i orfodi'r cynllun gorfodol a darparu hyfforddiant i staff awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn ystod blwyddyn gyntaf gweithredu'r cynllun gorfodol, disgwylir i'r costau fod yn £120,000. Mae hyn yn cynnwys £110,000 ar gyfer gorfodi a chostau untro o £10,000 ar gyfer hyfforddi staff awdurdodau lleol. Bydd cyllidebau presennol yn talu am amser staff ar gyfer y gwaith hwn.

177. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi na fydd unrhyw gostau ychwanegol sylweddol i'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn sgil y cynllun gorfodol ac y bydd cyllidebau ac adnoddau presennol yn talu am unrhyw gostau¹³¹.

Tystiolaeth gan Dystion

178. Cyfeiriodd nifer o dystion at y goblygiadau ariannol i awdurdodau lleol wrth weithredu'r cynllun ac yn arbennig y gofyniad i awdurdodau lleol gynnal ailymweliadau er mwyn ailsgorio busnesau petai angen.

¹²⁸ Memorandwm Esboniadol Bil Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru), paragraff 64

¹²⁹ *ibid*, paragraff 87

¹³⁰ *ibid*, paragraff 84

¹³¹ *ibid*, paragraff 80

179. Roedd y rhan fwyaf o dystion yn croesawu'r cynigion i awdurdodau lleol adennill costau o ran ailymweliadau. Nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

“We are happy that the provisions of the Bill will cover the re-inspection costs”¹³².

180. Rhannwyd y farn hon gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd a nododd:

“We support the provisions in the Bill that allow food authorities to recover the reasonable costs of re-rating premises, and feel that it is fair and equitable that business wishing to be re-rated should bear at least part of the

181. Dywedodd yr Asiantaeth Safonau Bwyd wrthym ei bod yn fodlon ar oblygiadau ariannol y Bil. Mewn tystiolaeth lafar dywedodd wrthym:

“The financial commitment from the Food Standards Agency to the scheme is absolute. It is one of our flagship policies to which we have committed, that we have developed and are delivering in partnership with local authorities across the UK, because that it has the potential to be an effective public protection measure. So, we have heavily invested in the website and a policy team at our headquarters in London”¹³³.

182. Nodwyd hefyd wrth sôn am waith Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru ar y cynllun gwirfoddol:

“If you add in the time spent by staff from the Cardiff office on developing and promoting the scheme and working with local authorities, my best estimate would be that we have committed around £0.33 million over the past three years to that. So, that is more or less the same level of expenditure that we would aim to commit continuously in Wales. It is within our baseline. As far as we understand it, the money that we receive from the Welsh Government will remain flat on cash throughout this spending review period, and I am confident that we will be able

¹³² CyT, paragraff 144, 12 Gorffennaf 2012 (am)

¹³³ CyT, paragraff 107, 12 Gorffennaf 2012 (am)

to meet those forward-spending commitments that I have identified from that budget”¹³⁴.

Tystiolaeth gan y Gweinidog

183. Rhoddodd y Gweinidog sicrwydd i'r Pwyllgor fod costau'r cynllun wedi cael eu dadansoddi'n sylweddol. Dywedwyd wrthym:

“In the first year of the scheme, the estimated cost is £475,350. That includes £225,000 for food businesses requesting re-rating inspections, £101,000 for the FSA to cover marketing and the provision of stickers, £10,000 for the training of local authority enforcement officers, and £139,350 for local authorities’ communication with food businesses, the consideration of appeals, and the enforcement of the scheme”¹³⁵.

184. Eglurodd y Gweinidog hefyd:

“In the period time before the mandatory scheme comes in, some food establishments will want to be re-inspected. The figure was about £166,000, for which we, as a Welsh Government, will foot the bill”¹³⁶.

Ein Barn Ni

185. Ar ôl ystyried cyngor y Gweinidog a thystiolaeth yr Asiantaeth Safonau Bwyd, rydym yn fodlon yr aed i'r afael yn ddigonol ag unrhyw oblygiadau ariannol.

¹³⁴ CyT, paragraff 107, 12 Gorffennaf 2012 (am)

¹³⁵ CyT, paragraff 241, 20 Mehefin 2012

¹³⁶ Ibid

6. Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

186. Clywodd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol dystiolaeth gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 2 Gorffennaf 2012¹³⁷.

187. Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar 3 Hydref 2012.

¹³⁷ CyT, paragraffau 141 - 244, 2 Gorffennaf 2012
<http://www.senedd.assemblywales.org/documents/s9311/2%20July%202012.pdf>

Atodiad A - Tystion

Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan y tystion a ganlyn ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgrifiadau llawn o'r holl sesiynau tystiolaeth lafar yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mglIssueHistoryHome.aspx?Ild=3812>

20 Mehefin 2012

Lesley Griffiths AC Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

*12 Gorffennaf
2012*

Steve Wearne Cyfarwyddwr Asiantaeth Safonau Bwyd
Cymru

Liz Withers Pennaeth Polisi Llais Defnyddwyr Cymru

Simon Wilkinson Swyddog Polisi - Gwasanaethau
Rheoleiddio, Cymdeithas Llywodraeth Leol
Cymru

Graham Perry Cyngor Sir Fynwy/Cyfarwyddwyr Diogelu'r
Cyhoedd Cymru

Iestyn Davies Pennaeth Materion Allanol Ffederasiwn
Busnesau Bach Cymru

Mike Jones Aelod o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Dean Bolton Aelod o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru

Julie Barratt Cyfarwyddwr Sefydliad Siartredig Iechyd yr
Amgylchedd Cymru

Dr Marion Lyons Cyfarwyddwr Diogelu'r Cyhoedd Iechyd
Cyhoeddus Cymru

*18 Gorffennaf
2012*

Shane Brennan Cyfarwyddwr Materion Cyhoeddus
Cymdeithas y Siopau Cyfleustra

Brigid Simmonds Prif Weithredwr Cymdeithas Cwrw a
Thafarndai Prydain

John Dyson Cynghorydd Bwyd a Materion Technegol
Cymdeithas Lletygarwch Prydain

27 Medi 2012

Lesley Griffiths AC Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol

Atodiad B - Rhestr o'r dystiolaeth ysgrifenedig

Darparodd yr unigolion a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor. Gellir gweld yr holl dystiolaeth ysgrifenedig yn llawn yn:

<http://www.senedd.cynulliadcymru.org/mgIssueHistoryHome.aspx?Ild=4138>

<i>Sefydliad</i>	<i>Cyfeirnod</i>
Food Solutions Ltd	FHR1
Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd (Cymru)	FHR2
Cynghrair Twristiaeth Cymru	FHR3
Cymdeithas Brechdanau Prydain, y Gymdeithas Pizza, Pasta a Bwyd Eidalaid a'r Gymdeithas Caffi	FHR4
Bwrdd Iechyd Cwm Taf	FHR5
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Chyfarwyddwyr Diogelu'r Cyhoedd Cymru Estyn	FHR6
Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili	FHR7
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy	FHR8
Cymdeithas y Siopau Cyfleustra	FHR9
Cyngor Sir Penfro	FHR10
Which?	FHR11
Cymdeithas Cwrw a Thafarndai Prydain	FHR12
Consortiwm Prynu Cymru	FHR13
Cyngor Sir Caerfyrddin	FHR14
Swyddfa Rheoliadau Gwell	FHR15
Llais Defnyddwyr Cymru	FHR16
Asiantaeth Safonau Bwyd	FHR17
Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru	FHR18
Cyngor Dinas Casnewydd	FHR19
Cymdeithas Lletygarwch Prydain	FHR20
	FHR21

Iechyd Cyhoeddus Cymru	FHR22
Panel Technegol Diogelwch Bwyd Cymru Gyfan	FHR23
Ymatebion Cyfweliad Eisteddfod yr Urdd a Llangollen	FHR24